

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

16 Mawrth 2016

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)

Mr A Archer, Mr D Ellis, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd S Hudson, Mrs G Hayward, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd D Rees, Mrs M Thomas, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 1.30pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, Cynghorydd R Owens a Mr AE Sangster.

2. Gair o Groeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ms Karen Maddock-Jones oedd yn cymryd rhan yng nghynllun yr Awdurdod ar Fentora.

3. Datgan Buddiannau

Dywedodd Mr A Archer bod ganddo fuddiant yn yr adroddiad ar yr Ymgynghori ar faterion Llywodraethiant, a gadawodd y cyfarfod adeg trafod y mater hwn.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3^{ydd} o Chwefror 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3^{ydd} o Chwefror 2016.

5. Adroddiadau o amrywiol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd sawl un o Bwyllgorau'r Awdurdod gerbron yr Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 27 Ionawr ac ar 2 Mawrth 2016
- (ii) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2016

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai adroddiad yn rhoi diweddariad ar brosiectau oedd eisoes wedi derbyn cymorth ariannol [*y cyfeirir atynt yng Nghofnod 6*] yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.



- (iii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2016

Tynnwyd sylw'r Aelodau at Gofnod 5 oedd yn datgan bod yr Aelodau, yn ogystal â staff, yn cael eu hannog i roi gwybod i'r Awdurdod am achosion o ymddygiad ymosodol. Hefyd nodwyd yn y cyfarfod hwnnw bod yr Aelodau wedi'u hannog i lenwi eu ffurflenni Hunanasesu Datblygu Aelodau, ac roedd copïau papur o'r rhain ar gael pe bai'r Aelodau yn dymuno cael un.

6. Cyfansoddiad Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr ar gyfer 2016

Cadarnhawyd mai cyfansoddiad y panel uchod ar gyfer 2016 yw Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol. Byddai hyn yn rhoi'r gymhareb angenrheidiol o 2:1 o Aelodau'r Cyngor Sir a'r Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD cadarnhau mai cyfansoddiad y Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr ar gyfer 2016 yw'r Cynghorydd M James, Mr D Ellis a'r Cynghorydd M Williams.

7. Adroddiad ar Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cytundeb Cyflawni

Gan ymddiheuro am absenoldeb y Pennaeth Cyfarwyddo, tynnodd y Cyfarwyddwr Cynllunio sylw'r Aelodau at y ddwy ddogfen a atodwyd i'r adroddiad, a gofynnwyd iddynt gymeradwyo'r dogfennau ar gyfer ymgynghori arnynt dros gyfnod o wyth wythnos.

Roedd y ddogfen gyntaf, sef yr Adroddiad ar Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, yn nodi'r meysydd hynny lle'r oedd y Cynllun yn cyflawni, y meysydd lle'r oedd angen newid y Cynllun a pham, y materion allweddol, a'r effaith ar y strategaeth, y polisïau, y safleoedd a'r berthynas rhyngddynt. Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi'r sail dystiolaeth a ystyriwyd. Roedd yr Aelodau wedi cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddrafftio'r Adroddiad drwy gymryd rhan mewn gweithdai a hefyd wedi cael cyfle i roi sylwadau ar ddrafft cyntaf yr adroddiad. Roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r ddogfen o ganlyniad i'r ymgynghori anffurfiol oedd hefyd wedi cynnwys Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Roedd yr Adroddiad Adolygu wedi dod i'r casgliad bod angen adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol, gan nodi'r weithdrefn yr oedd yr Awdurdod yn bwriadu ei dilyn i gyflawni hynny.

Yr ail ddogfen oedd Cytundeb Cyflawni drafft oedd yn cynnwys amserlen o'r camau allweddol o baratoi'r Cynllun a'r dulliau o ymgysylltu â'r gymuned. Hefyd roedd y ddogfen yn rhoi manylion am sut a phryd y byddai'r Awdurdod yn cynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer y



Cynllun, a'i agwedd tuag at Ganllawiau Cynllunio Atodol. Er mai'r bwriad oedd bod y gwaith o baratoi'r Cytundeb Cyflawni yn dilyn y gwaith o ddrafftio'r Adroddiad ar yr Adolygu, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i'r ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni ddigwydd ar yr un pryd. Hefyd roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud bod disgwyl i'r amserlen ar baratoi Cynllun newydd fod gryn dipyn yn llai na phedair blynedd, ac felly roedd amserlen y camau a nodwyd yn y Cytundeb yn amserlen dynn iawn. Yn anffodus, fel y gwyddai'r Aelodau eisoes, rhaid oedd canslo'r gweithdy oedd i'w gynnal y prynhawn hwnnw fyddai wedi canolbwyntio ar y Cytundeb Cyflawni.

Roedd yr adroddiad eglurhaol yn nodi'r camau nesaf o ran yr amserlen arfaethedig, oedd yn rhagweld y rhennir canlyniadau'r ymgynghori gyda'r Aelodau mewn Gweithdy yn y dyfodol ac yn fwy ffurfiol mewn cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Mehefin neu fis Gorffennaf.

O ran yr adroddiad ar Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch effaith yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a gwaith y Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol oedd ar y gweill ar y pryd. Hefyd y materion ynglŷn â hyblygrwydd y Cynllun Datblygu Lleol a godwyd gan yr adroddiad Craffu ar y Gweithgarwch Economaidd.

Gan droi at y Cytundeb Cyflawni, roedd yr Aelodau hefyd wedi mynegi peth pryder ynglŷn â'r amserlen ar gyfer adolygu'r Cynllun, gan y bernid bod goddefiant o ddau fis ar gyfer llithriant yn rhy fyr o ystyried y ceisiadau tebygol am fwy o amser gan y cyrff yr ymgynghorir â hwy yn ogystal â rhesymau eraill dros oedi posibl. Ofnai sawl Aelod y byddai Cynghorau Tref a Chymuned yn cymryd fawr ddim o ran yn y broses oherwydd maint a natur ddryslud y dogfennau y bwriedir ymgynghori arnynt. Er bod yr Aelodau'n ymwybodol bod gweithdai wedi'u trefnu ar gyfer Cynghorau, nid oedd gan rai Aelodau o'r Cynghorau hynny fawr o syniad o gynnwys y dogfennau hyn. Awgrymwyd y dylid anfon llythyr arall yn atgoffa'r Cynghorau Tref a Chymuned am y gweithdai ac yn tanlinellu pa mor bwysig yw'r dogfennau hyn. Gallai Aelodau Wardiau cyfagos hefyd fynychu'r cyfarfodydd. Awgrymwyd ymhellach y gallai fersiynau byrrach a mwy hygyrch o ddogfennau gael eu cynhyrchu er mwyn gwella'r lefelau o ymgysylltu.

PENDERFYNWYD cytuno ar y Camau Nesaf a nodwyd yn yr adroddiad i fwrw ymlaen â'r Adroddiad ar Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Cytundeb Cyflawni.

- 8. Adroddiad Cwmpasu Drafft ar Arfarnu Cynaliadwyedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
Eglurodd y Swyddog Arfarnu Cynaliadwyedd ac Ymchwil bod yr Adroddiad Cwmpasu drafft yn nodi'r cyd-destun a'r amcanion ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol newydd, ac roedd yr



Aelodau eisoes wedi cael cyfle i roi sylwadau ar ddrafft cynharach o'r ddogfen.

Cynigiwyd bod yr Adroddiad Cwmpasu drafft yn cael ei ddsbarthu ar gyfer ymgynghori am gyfnod o wyth wythnos, a bod canlyniadau'r ymgynghori ac unrhyw newidiadau a wneir yn sgîl yr ymgynghori i'r Adroddiad Cwmpasu terfynol yn cael eu cyflwyno gerbron yr Awdurdod maes o law.

Wrth ddiolch i'r swyddog am ei adroddiad, roedd yr Aelodau o'r farn bod yr adroddiad yn ddiddorol ac yn dangos bod gwaith y Cynllun Datblygu yn drawsffiniol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Cwmpasu ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd at ddibenion ymgynghori.

9. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020

Eglurodd y Prif Weithredwr ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a bod rhaid diweddarau'r Cynllun o leiaf bob pedair blynedd. Byddai'r Cynllun drafft oedd gerbron yr Awdurdod yn disodli'r Cynllun a gyhoeddwyd yn 2012.

Roedd y Cynllun yn nodi pedwar amcan cydraddoldeb a'r prosiectau, y mentrau a'r camau gweithredu y gobeithir y byddai'n cyflawni'r amcanion hyn, yn ogystal ag amlinellu'r sail tystiolaeth oedd wedi'i ddefnyddio i glustnodi'r amcanion. Roedd y ddogfen yn cymryd agwedd mwy integredig yn seiliedig ar nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd yr Aelodau'n hapus i gymeradwyo'r ddogfen ar gyfer ymgynghori, ond nodwyd gan un Aelod ei fod wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhinwedd swydd arall, ac o'r farn y gallai hyn fod yn ddiddorol fel rhan o Raglen Datblygu Aelodau yr Awdurdod. Cytunodd y Prif Weithredwr y dylid cynnal y cyfryw sesiwn hyfforddi.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 - 2020 ar gyfer ymgynghori.

10. Ffioedd a Chodi Tâl Cyn Ymgeisio

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaeth cyn ymgeisio yn ddi-dâl ar gyfer ceisiadau cynllunio, gyda swyddogion yn ymdrechu i roi ymateb sylweddol i ymholiadau cyn pen 30 diwrnod. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn orfodol i Awdurdodau Cynllunio gael lleiafswm o wasanaeth statudol cyn ymgeisio, ac awgrymwyd y dylid codi tâl am y gwasanaeth hwnnw fyddai'n dod i rym y diwrnod hwnnw sef yr 16eg o Fawrth 2016. Llywodraeth Cymru oedd yn pennu'r ffioedd oedd i'w codi ac roedd y ffioedd wedi'u nodi yn yr adroddiad ynghyd â'r lefelau isaf o wasanaeth



i'w ddisgwyl gan y rhai sy'n cyflwyno ceisiadau cyn ymgeisio o dan y gwasanaeth.

Roedd y swyddogion yn awyddus i sicrhau bod rhywfaint o gysondeb gwasanaeth ledled Sir Benfro, ac i'r perwyl hwnnw roedd swyddogion o'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi cyfarfod i geisio llunio gwasanaeth tebyg ar draws ffin y ddau Awdurdod.

Ychwanegodd bod angen tynnu'n ôl y gwasanaeth anstatudol sy'n rhad ac am ddim ar hyn o bryd, ac er mwyn rhoi rhywfaint o rybudd ac arweiniad i ymgeiswyr, cynigiwyd y byddai'r gwasanaeth presennol yn dod i ben o'r 1^{af} o Ebrill 2016. Roedd cyhoeddusrwydd wedi'i roi i hyn drwy'r wasg leol ac ar wefan yr Awdurdod.

Bwriad Llywodraeth Cymru oedd monitro'r broses newydd cyn ymgeisio, a byddai angen i bob Awdurdod Cynllunio Lleol gyflwyno gwybodaeth am hyn fel rhan o'r ffurflenni rheoli datblygu chwarterol.

Er bod rhai Aelodau yn croesawu cyflwyno codi tâl, roedd eraill yn teimlo bod y ffioedd arfaethedig yn rhy uchel, yn enwedig ar gyfer mân geisiadau, gyda'r perygl y byddai llai o geisiadau yn dod i law. Hefyd mynegwyd pryder am y pwysau ychwanegol y byddai'r gofyniad am ymateb cyn pen 21 diwrnod yn ei roi ar swyddogion. Atebodd y Cyfarwyddwr y byddai'r Awdurdod yn parhau i gynnig cymhorthfa cynllunio wythnosol oedd yn cynnig apwyntiadau hanner awr ar gyfer cwestiynau cynllunio cyffredinol.

PENDERFYNWYD:

- a) bod yr Awdurdod yn mabwysiadu polisi codi tâl am gyngor statudol cyn ymgeisio fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.
- b) y bydd gofyn codi ffi ar ymholiadau cyn ymgeisio o'r 16eg o Fawrth 2016 yn unol â gofynion gwasanaeth Llywodraeth Cymru;
- c) bod yr Awdurdod yn peidio â pharhau â'i wasanaeth cyn ymgeisio yn rhad ac am ddim o'r 1af o Ebrill 2016.

11. Adnewyddu Prydles Sgowtiaid Sain Ffraid

Dywedodd y Swyddog Ystadau bod yr Awdurdod yn berchen ar ddarn helaeth o dir rhydd-ddaliad yn Sain Ffraid sy'n cynnwys amrywiol adeiladau a strwythurau rhestredig gradd II gan gynnwys gardd furiog a theras o dri cyn fythynnod. Roedd y safle wedi'i ddefnyddio a'i feddiannu gan Ymddiriedolaeth Gorfforaethol Cymdeithas y Sgowtiaid fel canolfan gwrsylla a gweithgareddau o dan delerau prydles galwedigaethol oedd wedi dod i ben yn 2002. Ers hynny, roedd y tenant wedi parhau i feddiannu'r lle am yr un rhent hanesyddol o £200 y flwyddyn.

Roedd swyddogion wedi bod yn trafod gyda'r tenant am rai blynyddoedd ynglŷn â chytundeb cyfreithiol newydd i'w galluogi i barhau i feddiannu'r



safle, ac roeddent wedi cyrraedd Penawdau Telerau Cytundeb cynderfynol ar gyfer prydles 25 mlynedd newydd fyddai'n golygu bod y tenant yn gyfrifol am bob agwedd o gynnal a chadw'r safle ar eu cost eu hunain, ac eithrio waliau'r gerddi hanesyddol a'r coed ffrwythau o fewn yr ardd fyddai'n dal yn gyfrifoldeb uniongyrchol yr Awdurdod. Roedd mecanwaith y gallai'r Awdurdod adennill cyfran o'r gost o gynnal y waliau hanesyddol oddi wrth y tenant hefyd wedi'i gynnig a'i ffrwyno ar uchafswm o £3,000 mewn unrhyw flwyddyn.

Dywedwyd mai dim ond dau fater oedd yn weddill i'w cytuno, sef y rhent cychwynnol newydd i'w dalu, a swm y cyfraniad yr oedd y tenant yn barod i'w wneud tuag at gynnal y waliau.

Ar fater y rhent cychwynnol newydd, roedd y ddwy ochr wedi cytuno yn ddiweddar i gyd-benodi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i roi barn arbenigol annibynnol ar beth fyddai rhent y farchnad sy'n amlygu buddiannau a beichiau'r Penawdau Telerau y cytunwyd arnynt yn gynderfynol. Bwriad hyn oedd arwain a llywio'r trafodaethau oedd yn parhau ynglŷn â'r rhent.

Roedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi pennu gwerth rhent ym mis Hydref 2015 o £8,250. Fodd bynnag, roedd y tenant wedi dweud yn awr ei fod yn dymuno bod y rhent cychwynnol o dan y brydles newydd arfaethedig yn aros yn ddigyfnewid ar £200 ac nad oedd yn barod i wneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at gynnal y waliau. Roedd copi o lythyr oddi wrth Gyngor Sgowtiaid Sir Benfro ynghlwm wrth yr adroddiad, ac roedd ail lythyr a dderbyniwyd gan yr Awdurdod ers i'r adroddiad gael ei argraffu wedi'i ddisbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod er gwybodaeth.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r dewisiadau oedd ar gael i'r Awdurdod dros ddod â'r trafodaethau presennol ar adnewyddu'r brydles i ben, ac ymhlith y dewisiadau oedd cyflwyno Rhybudd Adran 25 i'r tenant o dan Ddeddf Landlord a Tenant 1954. Byddai hyn yn cael yr effaith o ddod â'r brydles gyfredol i ben ar ddyddiad terfynu'r rhybudd a sbarduno mecanwaith statudol fyddai'n caniatáu i'r Awdurdod wneud cais am rent dros dro, hyd nes y ceir cytundeb rhentu a drafodwyd rhwng y partïon, neu os methir â chael cytundeb, rhent marchnad a bennir gan y Llys Sirol. Os bydd y tenant yn gwrthod derbyn y rhent dros dro, byddai hynny'n arwain at y dewis o ddwyn achos meddiannu yn erbyn y tenant a dychwelyd y safle i'r Awdurdod gyda meddiant gwag llawn.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr Aelodau mai Cyngor Sgowtiaid Sir Benfro oedd mewn trafodaethau gyda'r Awdurdod, yn hytrach na'r corff cenedlaethol oedd ag adnoddau llawer mwy sylweddol.

Roedd yr Aelodau yn edmygu ac yn cefnogi gwaith mudiad y Sgowtiaid, ond yn cytuno bod y rhent o £200 y flwyddyn yn rhy isel. Roeddent yn meddwl tybed a allai Cymdeithas Genedlaethol y Sgowtiaid gynorthwyo



grŵp Sir Benfro gydag adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, o ran delio â'r cynnig oedd ger eu bron, roeddent o'r farn nad oedd y safle yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial er eu bod yn cydnabod y byddai'r safle yn elwa o fuddsoddiad pellach. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y posibilrwydd o wneud defnydd arall o'r safle, atebodd y swyddog drwy ddweud nad oedd y farchnad wedi cael ei phrofi ond ei fod o'r farn y byddai defnydd cynllunio o'r safle fel canolfan gwerysyla a gweithgareddau yn ei wneud yn ganolfan preswyl da yn ne'r sir ar gyfer canolfan gweithgareddau awyr agored. Cytunodd yr Aelodau ei fod yn safle masnachol gwerthfawr, a chynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad i gyflwyno rhybudd o dan Adran 25 o Ddeddf Landlord a Tenant 1954.

Roedd rhai Aelodau yn cydymdeimlo â'r tenant, gan nodi bod y cynnydd canrannol o'r rhent presennol i'r rhent arfaethedig yn eithaf mawr, a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod rhent cychwynnol o £3,000 yn cael ei godi, gan gynyddu'n raddol i £4,000 dros dair blynedd ac yn cynnwys lefel o atebolrwydd am gynnal a chadw'r waliau. Cafodd hyn ei roi i bleidlais, ond collwyd y bleidlais.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cyflwyno rhybudd o dan Adran 25 o Ddeddf Landlord a Tenant 1954 ar y Sgowtiaid, a bod hyn yn cadarnhau nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw wrthwynebiad iddynt adnewyddu'r brydles ar y telerau y cytunwyd arnynt dros dro yn amodol yn unig ar fater y rhent, ac y byddai'r Awdurdod yn gwneud cais i'r Llys tra bod trafodaethau yn parhau ar rent dros-dro o £4,125 sef 50% o'r rhent a bennwyd yn ddiweddar gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

[Datgelodd Mr A Archer bod ganddo fudd yn yr eitem ganlynol a gadawodd y cyfarfod tra bod y mater yn cael ei ystyried.]

12. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru/ y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â materion llywodraethu

Dywedwyd bod yr Awdurdod fis Ionawr eleni wedi ymateb i ddau ymgynghoriad ar newidiadau technegol i God Ymddygiad Aelodau a'r bwriad i ymestyn pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Y cyntaf o'r ddau oedd 'ymgynghoriad technegol' ar y broses o ddrafftio'r offerynnau statudol sy'n ymwneud â buddiannau Aelodau dan y Cod Ymddygiad oedd yn ymwneud â'r gofyniad cyffredinol na ddylai Aelodau ffafrio buddiannau eu ward/hardal eu hunain yn hytrach na buddiannau'r Awdurdod cyfan yr oeddent yn Aelod ohono. Roedd y dogfennau wedi eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Safonau ar gyfer sylwadau, ac roedd yr ymateb oedd ynghlwm wrth yr adroddiad wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar y 6ed o Ionawr 2016.



Rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad i'r Aelodau yn y cyfarfod drwy ddweud y byddai'r gorchymyn diwygiedig yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2016 ac y byddai gan yr Awdurdod 6 mis o'r dyddiad hwnnw i fabwysiadu'r gwelliannau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

Roedd yr ail ymgynghoriad yn ymwneud ag ymestyn pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) Drafft. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r rhannau allweddol o'r Bil drafft, nad oedd y rhan fwyaf ohonynt yn effeithio ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Roedd copi o'r ymateb ynghlwm wrth yr adroddiad. Ychwanegodd y Swyddog Monitro ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol ynghylch gweithredu a deddfu'r Offerynnau Statudol perthnasol tan ar ôl etholiadau Llywodraeth Cymru fis Mai.

NODWYD.

13. Calendr Cyfarfodydd 2016/17

Atgoffwyd yr Aelodau bod y calendr cyfredol o gyfarfodydd yn dod i ben fis Mehefin 2016 yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol, ac felly cyflwynwyd calendr ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod gerbron yr Awdurdod i'w gymeradwyo.

Nodwyd nad oedd unrhyw gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Ebrill 2017 oherwydd Etholiadau Llywodraeth Leol fis Mai y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag holodd un Aelod am y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer y 10fed o fis Mai 2017. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod yr Aelodau a benodwyd gan Gyngor Sir Penfro yn parhau i fod yn Aelodau o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, p'un a ydynt yn cael eu hail-ethol neu beidio neu wedi penderfynu peidio â sefyll i'w hail-ethol, hyd nes bod Aelodau newydd wedi'u henwebu gan y Cyngor Sir.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r calendr o gyfarfodydd ar gyfer 2016/17.

14. Digwyddiadau Corfforaethol

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael ei wahodd i fynychu amrywiol ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, ac roedd yr adroddiad yn rhestru'r digwyddiadau hynny yr oedd yr Aelodau wedi cael eu gwahodd hyd yn hyn. Rhoddwyd diweddariad ar ddyddiad Seminar Blynyddol Parciau Cenedlaethol Cymru i'r Aelodau fyddai'n cael ei gynnal ar yr 2^{ail} a'r 3^{ydd} o Dachwedd 2016 ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybod i'r swyddogion os oedd ganddynt ddiddordeb mewn mynychu unrhyw un o'r digwyddiadau dan sylw.



PENDERFYNWYD bod yr Aelodau yn cael eu hawdurdodi i fynychu'r digwyddiadau canlynol:

- a) Cynhadledd Cynllunio RTPI Cymru (Cadeirydd/Is-gadeirydd Pwyllgor Rheoli Datblygu)
- b) Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (hyd at 5 lle gan gynnwys swyddogion)
- c) Cwrs Sefydlu Cenedlaethol i Aelodau (Aelodau newydd)
- d) Seminar Blynyddol Parciau Cenedlaethol Cymru i'r Aelodau (pob Aelod)
- e) Cynhadledd Europarc

15. Cyflogau Aelodau 2016/17

Dywedwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol terfynol yn ddiweddar ar gyfer 2016/17. Roedd y Panel wedi penderfynu na fyddai unrhyw gynnydd mewn tâl Aelodau ac y byddai'r cyflogau yn aros ar £3,600 y flwyddyn o gyflog sylfaenol; £12,300 y flwyddyn o gyflog uwch sy'n daladwy i Gadeirydd yr Awdurdod; a £7,300 (lefel 1) neu £6,000 (lefel 2) o gyflog uwch sy'n daladwy i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y pwyllgorau eraill. Ar hyn o bryd roedd y cyflog uwch lefel 2 yn daladwy i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ac i Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Roedd hawl gan yr Awdurdod i dalu cyflog uwch i bedair swydd ar y mwyaf.

Roedd y cyfraddau teithio a chynhaliadaeth wedi newid ychydig ar gyfer aros dros nos yn Llundain ac i aros gyda theulu neu ffrindiau. Fodd bynnag, roedd y Panel wedi penderfynu peidio â newid y ffioedd ar gyfer Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau, na lefel y costau gofal sydd ar gael.

Byddai'r fframwaith cyflogau newydd yn dod i rym ar ddyddiad y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol sydd eleni ar y 15^{fed} o Fehefin 2016.

Gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu pa swyddi fyddai'n gymwys i dderbyn cyflog uwch ar gyfer 2016/17 a pha lefel o gydnabyddiaeth ariannol ddylai fod yn daladwy i'r swyddi Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd(ion) Pwyllgor. Hefyd gofynnwyd iddynt benderfynu ar uchafswm nifer y diwrnodau y gallai Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau gael eu talu mewn unrhyw flwyddyn (ar hyn o bryd 4 diwrnod y flwyddyn).

PENDERFYNWYD:

- a) nodi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2016/17.
- b) bod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael eu talu ar y cyflog uwch.



- c) bod Lefel 2 y cyflog uwch yn cael ei dalu i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ac i Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- d) bod y nifer uchaf o ddiwrnodau y gall Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau gael eu talu mewn unrhyw flwyddyn yn parhau ar 4 diwrnod y flwyddyn.

16. Diweddariad ar Dendr Caffi Oriol y Parc

Dyweddod y Swyddog Ystadau bod tri thendr wedi dod i law yn dilyn ymarfer marchnata gan RK Lucas a'i Fab, ac ar ôl cynnal cyfweiliadau, roedd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r parti a ffefrir i'w benodi. Nodwyd bod y deiliad presennol wedi dewis peidio ag ail-dendro ac felly, bydd cyfnod o bontio dros yr haf gyda'r cwmni newydd yn cymryd drosodd fis Tachwedd.

Eglurodd y swyddog wrth yr Aelodau mai consesiwn oedd yn cael ei gynnig yn hytrach na thenantiaeth ac y byddai'r drwydded am gyfnod o 5 mlynedd o'r 1af o Dachwedd 2016 gan godi rhent sefydlog dros gyfnod y drwydded.

Sicrhawyd yr Aelodau ynghylch hanes deiliad y consesiwn a ffefrir, a gofynnwyd bod llythyr yn cael ei anfon oddi wrth y Pwyllgor at Katie Smith, y tenant presennol, i ddiolch iddi am ei gwasanaeth clodwiw.

NODWYD.

17. Busnes Brys

PENDERFYNWYD oherwydd amgylchiadau arbennig, bod yr eitemau canlynol yn cael eu codi fel mater o frys, yn unol ag Adran 100(B)(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

18. Tŷ Mawr, Porth-gain

Dyweddod y Swyddog Ystadau bod yr Awdurdod yn berchen ar yr adeilad a enwir uchod a bod rhan ohono yn cael ei osod ar rent ac sy'n gweithredu fel y "Shed Bistro". Roedd y busnes yn llwyddiannus ac yn 2008 roedd y brydles wedi cael ei hamrywio er mwyn caniatáu i'r gegin gael ei hystyn. Roedd estyniad pellach wedi cael caniatâd cynllunio yn 2011 ac roedd y tenantiaid yn awr yn gofyn am estyniad i ôl troed y tir y maent yn ei brydlesu fel y gallent gwblhau'r estyniad cyn i'r caniatâd cynllunio ddod i ben yn ddiweddarach eleni. Roedd hyn wedi'i gytuno ar yr amod bod y brydles yn cael ei hail-gerio a bod y rhent yn codi o £5,000 i £ 6,000; byddai'r telerau eraill yn parhau yn ddigyfnewid.

Holodd yr Aelodau ynglŷn â'r defnydd a wneir o weddill yr adeilad ac fe'u hysbyswyd y defnyddir y gweddill fel canolfan i'r Parcmyn ac i storio cychod Clwb Rhwyfo Porth-gain. Cyn y crebachu economaidd roedd syniadau wedi'u trafod fyddai'n gwneud gwell defnydd o'r adeilad drwy greu uned fusnes ar y llawr cyntaf, ond nid oedd hyn wedi'i wireddu.



PENDERFYNWYD bod prydles y Shed Bistro yn cael ei hail-gerio a bod y rhent yn codi i £6,000 y flwyddyn er mwyn caniatáu i'r tenantiaid fwrw ymlaen â'r rhaglen estyniad busnes.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd S Hudson a gadawodd y cyfarfod yn ystod y cyflwyniad canlynol.]

19. Cyflwyniad gan Gyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Peter Heard ac i Edward Holdaway o Gymdeithas Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro oedd eleni yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed. Eglurodd Mr Heard, y Cadeirydd, nad oedd gan y Cyfeillion unrhyw swyddogion cyflogedig, ac aeth ymlaen i amlinellu peth o'r gwaith a wneir gan yr hyn oedd yn fand ymroddedig o wirfoddolwyr. Aeth Mr Holdaway, oedd yn Gadeirydd yr Is-Bwyllgor Polisi, ymlaen i amlinellu strategaeth ddrafft ddiwygiedig y Cyfeillion a'u rhan yng Nghynghrair Parciau Cenedlaethol Cymru, a thrwy hynny, yn y Rhaglen gyfredol ar Dirweddau'r Dyfodol.

Diolchwyd iddynt am gyflwyniad diddorol, a chanmolodd Aelodau'r Awdurdod y Cyfeillion ar y gwaith a gyflawnir ganddynt yn ymarferol, a diolchwyd iddynt am eu barn wrth wneud sylwadau ar geisiadau cynllunio. Hefyd barnwyd bod eu dylanwad drwy waith y Gynghrair Parciau Cenedlaethol Cymru yn sylweddol.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddymuno'n dda ar ran yr Awdurdod i'r Cyfeillion yn eu cinio dathlu cyn hir.

NODWYD.

20. Cyflwyniad gan Ymweld â Sir Benfro

Gan ddiolch iddynt am eu hamynedd yn aros tan ddiwedd yr hyn oedd wedi bod yn gyfarfod hir, estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Chris Osborne, Jayne Rees-Baynes ac i Julia Horton-Powdrill, Cadeirydd ac aelodau o Fwrdd Cysgodol Ymweld â Sir Benfro. Nododd Mr Osborne y rhesymau am yr angen i newid strwythur twristiaeth yn Sir Benfro, y partneriaid, a'r gwaith oedd wedi'i gyflawni hyd yn hyn. Aeth yn ei flaen i amlinellu strwythur arfaethedig y sefydliad newydd, ynghyd â'r amserlen arfaethedig pan fyddai'r sefydliad newydd yn weithredol. Pwysleisiodd y byddai'n rhaid i'r sefydliad newydd fod yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ariannol gynaliadwy cyn pen tair blynedd.

Atebodd y Bwrdd Cysgodol nifer o gwestiynau gan Aelodau'r Awdurdod, a daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch iddynt am eu cyflwyniad a dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.



Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai unrhyw gais am gyllid ar gyfer y sefydliad newydd yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

NODWYD.

